



# Cylch rheoli perllannau



## Dewis math o impyn

Dyma'r darn ffrwytho a gymerwyd o'r amrywiaeth ffrwythau yr hoffech ei dyfu. Dewiswch eich hoff ffrwyth i'w fwyta!



## Dewis gwreiddgyff

Dyma'r system wreiddiau y gall impyn dyfu arni. Gall gwreiddgyff effeithio ar briodweddau coeden e.e. pa mor dal y bydd yn tyfu.



## Impio

Gellir uno impyn a gwreiddgyff trwy impio, gan eu galluogi nhw i dyfu fel un planhigyn.



## Dyluniad perllan

Wrth ddylunio perllan, rhaid ystyried gofod, pridd a golau er mwyn lleihau'r gystadleuaeth rhwng coed.





### **Paratoi'r tir**

Ar gyfer pob coeden, palwch dwll sydd ychydig yn fwy na'r gwreiddgyff, gan dynnu unrhyw greigiau mawr allan.



### **Plannu'r coed ffrwythau**

Daliwch y goeden yn y twll a'i lenwi â phridd yn ofalus. Dylai'r impyn fod uwchben y ddaear. Ar ôl ei phlannu, gellir ychwanegu cylch tomwellt o'i chwmpas.



### **Diogelu'r coed**

Gall polyn helpu i ddiogelu'r goeden rhag gwyntoedd cryfion, a gellir ychwanegu amddiffyniad i ddiogelu'r rhisgl ifanc rhag ysglyfaethwyr e.e. cwningod.



### **Tocio**

Mae tocio'n helpu i gynnal siâp a maint y goeden ac yn sicrhau bod golau'n cyrraedd y goeden gyfan.



### **Teneuo'r ffrwythau**

Os oes cnwd trwm gan eich coeden mae'n syniad da teneuo'r ffrwythau. Mae hyn yn helpu'r ffrwythau sy'n weddill i aeddfedu ac yn gwneud y brigau'n llai tebygol o dorri.



### **Cynaeafu a chasglu'r ffrwythau**

Unwaith mae'r ffrwythau'n aeddfed, gellir eu casglu, eu golchi a'u bwyta.



### **Symud ffrwythau sydd wedi cwmpo a phydru**

Un cam rheoli pwysig yw symud y ffrwythau sydd wedi cwmpo i'r ddaear o gwmpas y goeden er mwyn lleihau'r perygl o glefyd.